Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

Is-ddeddfwriaeth: 28 Ebrill 2004

Gwnaeth y Pwyllgor ystyried chwe darn o is-ddeddfwriaeth yn ei gyfarfod ar ddydd Mercher, 28 Ebrill 2004:

- Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003
- Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003
- Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004;
- Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2004
- Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2004;
- Rheoliadau Athrawon Ysgol (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2004

Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003; a
Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003

Dywedodd y Gweinidog mai'r rheoliadau hyn sy'n darparu'r gweithdrefnau ar gyfer gwahardd disgyblion. Dywedodd mai'r bwriad yw eu diwygio ar 6 Gorffennaf 2004: a daw'r gwelliannau i rym ar 1 Medi 2004.

Y newid mwyaf i'r rheoliadau yw eu bod yn mynd yn ôl i gloriannu'r hyn sy'n debygol o ddigwydd a defnyddio hynny fel y llinyn mesur wrth benderfynu ar waharddiadau. Esboniodd y Gweinidog bod y newidiadau eraill yn ymwneud â gwneud y testun yn gliriach ac â gwella'r wybodaeth. Bydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r canllawiau hefyd, i adlewyrchu'r newidiadau i'r rheoliadau.

Esboniodd y Gweinidog bod angen y newid cyntaf i ddatrys problemau ymarferol a gododd yn sgil dyfarniad yn y Llys Apêl. Mae'r ail newid yn crisialu cyfrifoldebau ac ymrwymiadau cyrff llywodraethu o ran gwaharddiadau. Mae'r trydydd newid yn gofyn i gyrff llywodraethu roi dyddiad geni disgybl sy'n cael ei wahardd, er mwyn ei gwneud hi'n haws casglu a monitro data am waharddiadau.

Roedd y Pwyllgor yn falch o'r cyfle hwn i drafod y newidiadau dan sylw. Mynegodd yr aelodau eu cefnogaeth i'r egwyddor sylfaenol mai safon sifil yr hyn sy'n debygol o ddigwydd yw'r safon profi y dylid ei ddefnyddio mewn achosion sy'n ymwneud â gwahardd disgyblion. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r holl welliannau a oedd wedi'u rhoi ger bron.

Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004;
Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2004
Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2004; a
Rheoliadau Athrawon Ysgol (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2004

Rhoddwyd copïau o'r rheoliadau i'r aelodau, ynghyd â chrynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a sylwadau Llywodraeth y Cynulliad ar yr ymatebion hynny; yn ogystal â'r gwelliannau sydd wedi'u rhoi ger bron. Rhoddwyd papurau gwybodaeth i'r aelodau hefyd, a oedd wedi'u paratoi gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, yn rhoi cefndir y rheoliadau.

Cyflwynodd y Gweinidog y rheoliadau, a gwnaeth y pwyntiau canlynol:

- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn y crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y rheoliadau a'r canllawiau drafft o blaid cynigion Llywodraeth y Cynulliad;
- Roedd rheoliadau ELL 14-04 yn ymwneud yn bennaf ag ysgafnhau llwyth gwaith athrawon.
- Nid oedd y rheoliadau'n ei gwneud hi'n orfodol defnyddio staff cymorth, ond roedd cyfle i'w defnyddio o dan ddiffiniadau statudol. Nid oedd canllawiau ar gael:
- Mae'r rheoliadau'n rhoi amodau clir pan fyddai staff cymorth yn cael gwneud gwaith penodol; a
- Dywedodd y Gweinidog ei bod yn gwrthwynebu gwelliant Janet Ryder, ond roedd yn fodlon derbyn egwyddor gwelliant Mark Isherwood i'r canllawiau.

Gofynnodd y Cadeirydd i Janet Ryder gyflwyno'i gwelliant ac fe wnaeth y pwyntiau canlynol:
- Mae cynorthwywyr dosbarth eisoes yn gwneud cyfraniad mawr i helpu athrawon dosbarth, ac mae hyn i'w groesawu;
- Roedd y dyletswyddau yn rheoliad 6 ELL 14-04 yn dderbyniol i athrawon cymwysedig ond nid i athrawon heb gymwysterau;
- Nid oedd UCAC nag NUT Cymru yn cefnogi'r rheoliadau hyn;
- Gallai paragraff 8 arwain at system ddysgu dwy haen;
- Athrawon cymwysedig yn unig ddylai addysgu plant.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Gweinidog grisialu'r dehongliad o baragraff 8b; a oedd yn ofynnol i athro fod yn bresennol yn yr ystafell ddosbarth gyda Chynorthwy-ydd Dysgu Lefel Uwch (CDLU) neu a gâi adael cynorthwy-ydd dysgu ar ei ben ei hun i oruchwylio dosbarth?

Roedd rhai Aelodau'n cefnogi'r gwelliant ac fe wnaethant dynnu sylw at y ffaith nad oedd dau undeb athrawon, NUT Cymru ac UCAC, wedi llofnodi'r cytundeb cenedlaethol ar lwyth gwaith athrawon.

Gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol wrth ymateb:

- Roedd Llywodraeth y Cynulliad am gefnogi'r proffesiwn dysgu trwy helpu i leihau llwyth gwaith athrawon;
- Roedd staff cymorth o bob math yn gweithio mewn ysgolion; ee staff clercio, cynorthwywyr dysgu, cynorthwywyr AAA a nyrsys ysgol.
- Roedd undebau eraill wedi derbyn y rheoliadau a'r canllawiau;
- Nid oedd tystiolaeth y byddai'n arwain at broffesiwn dwy haen;
- Roedd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon a Chymdeithas y Prifathrawon Uwchradd wedi derbyn y rheoliadau;
- Nid oedd sail i bryderon NUT Cymru ac UCAC gan nad oes unrhyw fwriad gan Lywodraeth y Cynulliad i lasdwreiddio'r proffesiwn trwy ddiddymu ei statws fel proffesiwn i raddedigion;
- Roedd Llywodraeth y Cynulliad wedi nodi yn y rheoliadau'r hyn y mae'n ofynnol i athrawon ei wneud a
- Atebodd Mike Harper, Pennaeth yr Is-adran Addysgu ac Arweinyddiaeth i gwestiwn y Cadeirydd a dweud y gallai CDLU gael ei adael ar ei ben ei hun i oruchwylio dosbarth cyn belled â bod yr athro a'r prifathro yn fodlon. Ychwanegodd y Gweinidog y byddai'n rhaid i'r athro ddatblygu cynlluniau gwaith.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor bleidleisio ar welliant Janet Ryder:

Gwelliant 1 (yn enw Janet Ryder AC)

Rheoliadau Addysg (GwaithPenodedig a Chofrestru) (Cymru)2004

Atodlen 2: Dileu paragraff 8.

O blaid y gwelliant: Peter Black, David Davies, Mark Isherwood, Owen John Thomas a Janet Ryder

Yn erbyn y gwelliant: Leighton Andrews, Jane Davidson, Jeff Cuthbert, Irene James a Denise Idris Jones

Roedd y bleidlais yn gyfartal, gyda phump o blaid a phump yn erbyn. Yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Llywydd, defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw i drechu'r gwelliant.

Gofynnodd y Cadeirydd i Mark Isherwood gyflwyno'i welliannau ac fe wnaeth y pwyntiau canlynol:
- Roedd gofyn i baragraff 2.8 y canllawiau gydnabod y mecanweithiau ar gyfer darparu AAA;
- Roedd angen rhoi cydnabyddiaeth i wobrwyo ymddygiad da a rheoli ymddygiad drwg;
- Ar gyfer ELL-13-04 Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004, dylid ei gwneud hi'n ofynnol rhoi hyfforddiant i athrawon disgyblion ag anawsterau clyw i'w gwneud yn ymwybodol o anghenion plant

byddar a hefyd gwneud cymwysterau addysg bellach yn dderbyniol mewn ysgolion;
- Roedd angen hefyd am werthusiad deuol o ddarlithwyr addysg bellach ac athrawon dosbarth chwech mewn ysgolion; o safbwynt cydraddoleb tâl a rheoli perfformiad.

Dyma oedd y gwelliannau a roddwyd ger bron:

Gwelliant 2 (yn enw Mark Isherwood AC)

Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwywyr Dysgu Lefel Uwch (Canllawiau)

Paragraff 2.8: Ychwanegu ar y diwedd: …"and know the key factors that can affect the way SEN pupils learn."

Gwelliant 3 (yn enw Mark Isherwood AC)

Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwywyr Dysgu Lefel Uwch (Canllawiau)

Paragraff 2.9: Dileu gweddill y frawddeg ar ôl "... to establish a ..." a rhoi "... purposeful and disciplined learning environment, to promote good behaviour and to manage bad behaviour..." yn ei le.

Dywedodd y Gweinidog ei bod yn fodlon derbyn y ddau welliant mewn egwyddor, ond byddai'n gorfod gofyn barn gyfreithiol ynghylch yr union derminoleg. Bydd y rheoliadau'n cael eu trafod yn y cyfarfod llawn ar 28 Mehefin 2004, a bydd hynny'n gyfle i Aelodau ymateb i'r rheoliadau fel y'u diwygiwyd.

Roedd y Pwyllgor yn unfryd ei gefnogaeth i egwyddorion y gwelliannau hyn. Penderfynodd y Cadeirydd felly nad oedd angen cynnal pleidlais.

Peter Black AC

Cadeirydd y Pwyllgor